

# Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru

## Trawsgrifiadau Fideo

### CLIP 1 - MARY HOCHBERG

Mary Hochberg - MH

Cyfwelydd - C

**C:** Beth oedd eich argraffiadau cyntaf pan gyrhaeddech chi Paddington?

**MH:** Wel, doedd gennym ni ddim llawer...roedden ni wedi blino'n lân, wrth gwrs, oherwydd doedden ni ddim wedi cysgu mewn gwirionedd ac roedden ni wedi ein rhannu'n grwpiau amrywiol. Roedd rhai pobl yn mynd at deuluoedd ledled y wlad, a phobl eraill yn mynd, efallai at eu teuluoedd eu hunain. Roedd criw bach yn mynd ymlaen i ogledd Cymru.

Arhoson ni mewn castell diddorol mewn parc anferth ar lan Môr Iwerddon, pentref bach o'r enw Abergele, rhwng Rhyl a Bae Colwyn. Ardal reit neis, ardal hardd iawn a dweud y gwir. Pan gyrhaeddon ni, roedd wedi bod yn wag ers peth amser a doedd dim dŵr, dim trydan.

Roedd yn lle prydfferth a dweud y gwir, y tu mewn a'r tu allan. Roedd yn edrych fel castell canoloesol gyda waliau crenellog ac roedd ganddo ystafelloedd gydag ystafelloedd ymolchi en suite, ond roedden nhw wedi'u cloi oherwydd nad oedd dŵr yno felly ni allai rhywun ddefnyddio hwn.

**C:** Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o'r bobl Prydain?

**MH:** Yr argraffiadau cyntaf oedd pan gyrhaeddon ni yno, doedd dim, wel, roedd hi'n Brydeinig mae'n debyg, ond doedd gennym ni ddim i'w wneud â'r boblogaeth i fyny yno, heblaw bod un wedi mynd at y deintydd am wn i. Ac wedyn y... wn i ddim beth oedd eu barn nhw ohonom ni, doedden nhw erioed wedi gweld unrhyw Iddewon, roeddwn nhw mwy na thebyg yn meddwl bod gennym ni gym.

Ni wahoddwyd neb erioed i'r teuluoedd. Neb yr oeddwn yn ei adnabod. Ond roedd y bechgyn yn gweithio ar ffermydd. Roedd yn rhaid i fechgyn eraill wneud gwaith fel pwmpio dŵr i gegin yr islawr; dyna oedd yr unig ddŵr oedd ar gael. Ac roedd yn rhaid i fechgyn eraill baratoi'r lampau paraffin oherwydd doedd gennym ni ddim trydan. Felly, yn yr holl ystafelloedd cyhoeddus roedden ni'n defnyddio'r lampau paraffin hyn yr oedd yn rhaid eu llenwi ac roedd yn rhaid glanhau'r mantelau. Roedd gennym ychydig o ganhwyllau y gallem eu defnyddio yn yr ystafelloedd gwely.

Y noson gyntaf roedd rhaid i ni gysgu, y ddwy noson gyntaf dwi'n meddwl, roedd rhaid i ni gysgu ar y llawr. Fe nwaethom ni gyrraedd yn hwyr iawn yn y nos—efallai ei bod yn 11 o'r gloch y nos—a rhoddwyd ni mewn ystafell anferth, a drodd wedi hyny yn ystafell fwyta i ni, sef yr unig ystafell gyda lle tân mawr iawn, iawn.



## Trawsgrifiadau Fideo

### CLIP 1 - MARY HOCHBERG yn parhau

**IC:** Pan oeddech chi yn yr ysgol pan gyrraeddoch chi Gymru, faint o Saesneg oedd gennych chi?

**MH:** Roedd gen i lawer o Saesneg, ond doeddwn i erioed wedi ei siarad mewn gwirionedd heblaw yn yr ysgol a doeddwn i ddim wedi siarad Saesneg â neb am flwyddyn a hanner.

**C:** Roeddech yn sôn am gyrraedd Cymru, a, a byw yn y castell a pheidio â chael llawer o gysylltiad â'r boblogaeth leol.

**MH:** Dim o gwbl.

**C:** A newidiodd hynny wrth i'r rhyfel fynd rhagddo?

**MH:** Na, byth, na.

### CLIP 2 - ROBERT WASSERBERG

**Robert Wasserberg - RW**

**Interviewer - I**

**RW:** Dwi'n cofio pan gyrraeddwn ni roedd y Saeson yma'n gwisgo'r gwisgoedd gwyrdd doniol yma, yn dod a the a brechdanau i ni, wyddoch chi, boesys bach ac yn gofyn 'Ti'n iawn cariad? Ti'n iawn cariad?' Doedden ni ddim yn gallu siarad gair o Saesneg, ond roedden nhw'n annwyl iawn.

**C:** A beth ddigwyddodd wedyn?

## Trawsgrifiadau Fideo

### CLIP 2 - ROBERT WASSERBERG yn parhau

**RW:** Wel, beth ddigwyddodd wedyn, aethon ni drwy'r tollau a'r rheolaeth pasbortau. Wel,, wyddoch chi, roedd gennym ni, ychydig oedd gennym ni, ar ein cotiau, roedd gennym ni labeli. Fel parseli, fel bagiau ac ar y labeli, roedd enw a'r holl fanylion.

Fe wnaethon nhw ein rhoi ni ar drên ac fe wnaethom ni deithio ar y trên Saesneg hwn. Teithion ni am...Yn yr hwyr cyrhaeddod ni bentref bach o'r enw Llanwrtyd yng Nghymru. Aethpwyd â ni i westy; roedd yn westy ond roedd wedi ei droi'n hostel.

Ac roeddwn i yno. Dyna lle cawsom ein cyfarfod gan Lysgenhadaeth Tsiec gan y Llywodraeth Tsiec, y swyddogion Tsiec yr oeddent yn dal i wisgo eu gwisgoedd Tsiec.

A cawsom fwyd a diod, a rhannwyd ni yn ddosbarthiadau a'r bechgyn yn un, chi'n gwybod. I fyny'r grisiau roedd yr ystafelloedd cysgu ac aethon ni i'r ystafelloedd cysgu a dyna lle roeddwn i'n aros. Dyna lle roeddwn ni...

**C:** A gawsoch chi unrhyw addysg yng Nghymru?

**RW:** Wel, lle'r oedden ni oedd yr ysgol, roedd hi'n cael ei rhedeg ac roedd hi'n eiddo i Lywodraeth Tsiec, ym Mhrydain. Roedd yn ysgol a drefnwyd gan Tsiec.

**C -** A sut cawsoch eich trin?

**RW:** Neis iawn, neis iawn.

**C:** Beth am Brydeinwyr o gwmpas fan yna?

**RW:** Wel, roedd cymry oedden nhw.

**C:** Y Cymry, maddeuwch i mi.

**RW:** A doeddwn i ddim yn gwybod am amser hir fy mod ym Mhrydain, 'achos dim ond Cymraeg roedd pobl y pentref yn ei siarad. Ac fe wnaethon nhw ein trin ni'n braf iawn, roeddwn nhw, rwy'n cofio eu tartenni jam, ac rwy'n cofio—rwyf wrth fy modd yn canu, rwyf wedi bod yn canu ers blynnyddoedd lawer ac maent yn dweud bod gennyf lais da, ond dwi ddim yn gwybod—a'r Cymry, mae corau yn mhob man. Roedd yna gôr eglwys yno, a phan wnaethon nhw ddarganfod fy mod i'n gallu canu, fe wnaethon nhw fy nghael i mewn i'r côr Cymraeg. Felly, canais yn y côr Cymraeg yn y pentref, a oedd yn neis iawn

# Activity 3: Kindertransport & Child Refugees in Wales: Part 3 - Arrival in Wales

## Video Transcriptions

### CLIP 2 - ROBERT WASSERBERG yn parhau

**IC:** A wnaethoch chi dderbyn post o Tsiecoslofacia?

**RW:** Na, na, na. Doeddwn i ddim yn gwybod beth ddigwyddodd, doeddwn i ddim yn gwybod beth ddigwyddodd. Collais gysylltiad gyda fy rhieni, gyda fy nheulu. Doeddwn i ddim yn gwybod dim byd.

Fe wnaethon nhw ofyn i ni a fyddem yn hoffi gadael yma a mynd at deuluoedd Iddewig? Felly, dywedais 'Iawn, pe bai modd trefnu hynny', felly fe wnaethon nhw geisio ein mabwysiadu ni i deuluoedd Iddewig.

Ond wnaethon nhw ddim llwyddo, ond beth wnaethon nhw oedd ein gwahodd ni ar gyfer yom tovim [gwyliau Iddewig], ar gyfer y chagim [term arall ar gyfer gwyliau Iddewig], i deuluoedd Iddewig.

**C:** Yng Nghymru?

**RW:** Ble bynnag, ble bynnag. Wnaethon nhw ddim, doedden nhw ddim yn dweud yng Nghymru, felly ble bynnag yr oedden nhw, ble bynnag roedd teulu Iddewig yn barod i'n cymryd ni.